# LLAIS CAERDYDD A'R FRO ADRODDIAD YMGYSYLLTU

Ymgysylltu â phobl sy'n byw yn Llanilltud Fawr

Chwefror 2026

Fersiwn

## Cyflwyniad

Rhwng dydd Llun 19eg a dydd Gwener 30ain Ionawr 2026, bu Llais yn ymgysylltu â phobl sy'n byw yn Llanilltud Fawr i gasglu eu barn a'u profiadau o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn yr ardal. Cymerodd Llais ran mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ymweliadau â Meddygfeydd Teulu a mynychu grwpiau cymunedol, er mwyn cynnal presenoldeb lleol a rhoi gwahanol ffyrdd i drigolion ymgysylltu â ni.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddysgom, sut ymatebodd gwasanaethau, a'r newidiadau cadarnhaol a ddilynodd.

## Yr hyn a glywsom

### Darpariaeth gwasanaeth

- Cefnogodd trigolion a Chynghorwyr lleol y syniad o gyfleuster iechyd newydd ar gyfer y boblogaeth sy'n tyfu ond nodwyd nad oedd llythyr cyngor y dref at y Bwrdd Iechyd wedi derbyn unrhyw ymateb.
- Derbyniodd gwasanaethau yn ysbyty'r Barri, gan gynnwys y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau'r Barri a'r adran pelydr-x, a gwasanaethau arbenigol fel Dermatoleg, Wroleg a Chardioleg adborth cadarnhaol.
- Roedd rhai o'r farn bod ysbyty'r Barri yn cael ei 'danddefnyddio' a dylid rhoi mwy o wasanaethau yn yr ysbyty i ddarparu gofal yn agosach at adref.
- Codwyd rhai pryderon ynghylch cyllid cyfyngedig a rhai triniaethau nad ydynt ar gael mwyach ar y GIG, fel tynnu bynion.
- Codwyd sawl mater ynghylch glendid Ysbyty Prifysgol Cymru, gan gynnwys adroddiad o haint yn ystod arhosiad perthynas yn yr ysbyty.

> Aeth fy nhad i UHL am lawdriniaeth wedi'i threfnu ar ei ben-glin – roedd yn iach. ..Cafodd ei drosglwyddo i YOC lle cafodd ei symud o gwmpas yr ysbyty. Yn ystod y cyfnod hwn, daliodd sepsis, covid a ffliw. Bu farw yn ddiweddarach yn yr uned gofal dwys. Roedd yn iach a gellid bod wedi atal ei farwolaeth, pe bai wedi mynd at y Dywysoges Cymru neu wedi mynd yn breifat. Mae glendid YPC yn ofnadwy.

## Meddygfeydd Teulu:

**Meddygfa Llanilltud Fawr a Coastal Vale:**

- Mae'r rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y Practis, yn enwedig am y gallu i gael apwyntiad ar yr un diwrnod, apwyntiadau y gellir eu bwcio ymlaen llaw a bwcio apwyntiadau mewn person.
- Mynegodd pobl rwystredigaeth o orfod ffonio am 8yb ond roeddent yn deall na ellir gwneud dim am hyn.
- Codwyd pryderon unigol ynghylch y gofal a dderbyniwyd, yn enwedig ynghylch cyfathrebu a chefnogaeth yn dilyn diagnosis.

**Meddygfa Western Vale:**

- Er bod y rhan fwyaf o gleifion wedi canmol y gofal a dderbyniwyd, mynegodd un unigolyn bryderon ynghylch agwedd rhai o'r staff.
- Er bod cleifion yn cael y dewis o gael apwyntiad yn safleoedd y Practis eraill, fel y Bont-faen, dywedodd rhai eu bod yn ei chael hi'n anodd teithio yno.

## Deintydd y GIG

- Codwyd pryderon ynghylch ansawdd ffitiadau dannedd gosod, gan gynnwys rhwystredigaeth nad yw problemau dannedd gosod yn cael eu trin fel argyfyngau, a theimlai rhai bod hyn wedi cael effaith negyddol ar eu lles.
- Roedd rhai unigolion heb ddeintydd y GIG yn anymwybodol o'r rhestr aros ganolog.
- Mynegodd oedolion a phobl ifanc bryder ynghylch cost gofal deintyddol gan fod yn rhy ddrud i bobl ei fforddio.

## Teithio i ofal

- Mae pobl wedi mynegi trafferth wrth deithio y tu allan i Lanilltud Fawr ar gyfer apwyntiadau meddyg teulu, yn enwedig os nad oes ganddyn nhw gar na mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy.
- Codwyd pryder ynghylch amseroedd aros hir ambiwlansys i gyrraedd yr ardal, hyd yn oed mewn digwyddiad difrifol.
- Codwyd pryder ynghylch parcio yn Ysbyty Prifysgol Cymru, yn enwedig pan fydd y gwasanaeth Parcio a Theithio yn dod i ben.
- Dywedodd rhai unigolion eu bod yn well ganddynt deithio i'r Dywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan ei bod yn haws ac yn gyflymach iddynt gyrraedd.

### Cyfathrebu

- Tynnodd oedolion a phobl ifanc sylw at bwysigrwydd cyfathrebu clir a hygyrch.
- Dywedodd pobl ei bod hi'n anodd cyrraedd y gwasanaeth roedden nhw ei angen dros y ffôn gan fod galwadau'n aml yn mynd i neges llais heb ei monitro ac nad oedd dull cysylltu arall ar gael. Rhoddwyd yr adran Cardioleg fel enghraifft.
- Cododd cleifion sy'n siarad Cymraeg bryderon ynghylch cywirdeb ac ansawdd arwyddion Cymraeg yn Ysbyty Prifysgol Cymru.

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

- Roedd pobl yn teimlo nad oedd cefnogaeth iechyd meddwl yn 'bodoli o gwbl' a bod angen mwy o gyllid ar ei gyfer.
- Dywedodd pobl ifanc fod angen gwella gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc [CAMHS].

### Amseroedd aros

- Er bod rhai pobl wedi nodi apwyntiadau amserol, roedd eraill yn profi arosiadau hir am wasanaethau fel gofal deintyddol, pediatreg a llawdriniaeth.
- Roedd pobl ifanc yn teimlo bod angen gwella amseroedd aros.

## Cynrychioliadau wedi'i wneud

Fe wnaethon ni rannu'r canfyddiadau hyn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Awdurdod Lleol y Fro, a gofyn am ymatebion ar:

- Y cyfle i ehangu gwasanaethau lleol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu cyfleuster iechyd newydd yn Llanilltud Fawr a chynyddu gwasanaethau yn Ysbyty'r Barri.
- Ehangu'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y Rhestr Aros Ganolog ar gyfer gofal deintyddol y GIG.
- Sicrwydd ynghylch glendid yr ysbyty.
- Heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth deithio i gael mynediad at ofal.
- Dulliau cyfathrebu, gan gynnwys cywirdeb arwyddion Cymraeg

## Effaith a newid

Helpodd ein gwaith gyda'r gymuned i sicrhau newidiadau cadarnhaol.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:**

1. Eglurwyd bod cynllun 2019 y Bwrdd Iechyd i ddatblygu Hybiau a Chanolfannau Llesiant wedi'i ohirio'n oherwydd cyfyngiadau cyllid cyfalaf cenedlaethol. Ni wnaeth Hwb Clwstwr y Dyffryn Gorllewinol, a oedd yn wreiddiol yng nghyfnod 3, erioed fynd y tu hwnt i chwiliad safle cynnar, lefel uchel. Er bod safle hen ysgol wedi'i awgrymu'n lleol, pwysleisiodd y Bwrdd Iechyd y byddai angen gwerthusiad llawn o'r opsiynau. Os daw Hwb y Gorllewin o Fro yn flaenoriaeth ranbarthol, bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn pennu'r safle mwyaf addas, gan gynnwys safle'r hen ysgol a awgrymwyd.
2. Rhannodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth sy'n amlinellu'r ffioedd cyfredol a'r eithriadau sydd ar gael ar gyfer gofal deintyddol am ddim – [ffioedd ac eithriadau deintyddol y GIG | LLYW.CYMRU](). Mae gwybodaeth a phosteri wedi cael eu hanfon at bob practis deintyddol yng Nghaerdydd a'r Fro ac wedi cael eu hyrwyddo drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd. Gall unigolion hefyd gysylltu â'r Bwrdd Iechyd ar 02920 747747 os na allant wneud cais ar-lein.
3. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi pwyslais cryf ar lendid ysbytai, wedi'i gefnogi gan system gadarn o archwiliadau amgylcheddol a gynhelir gan dimau cadw tŷ, staff nyrsio, a'r tîm Atal a Rheoli Heintiau (IP&C).
4. Nododd y Bwrdd Iechyd fod ganddynt brosesau cryf i nodi risgiau heintus yn gyflym a sicrhau bod cleifion yn cael eu lleoli'n ddiogel i atal trosglwyddo. Mae hyn yn cynnwys Asesiad Risg Clinigol ac offeryn Diogel i Symud (S2M).
5. Cydnabyddir y pryderon a godwyd gan Llais ynghylch anawsterau teithio a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i lywio cynllunio gwasanaethau parhaus ac ymgysylltu â phartneriaid lleol.
6. Ym mis Ionawr 2026, cyfarfu'r Bwrdd Iechyd â Chyngor Caerdydd a gadarnhaodd bwysigrwydd cynnal Parcio a Theithio addas ar gyfer safle'r ysbyty, a dywedasant eu bod yn bwrw ymlaen yn weithredol ag opsiwn amgen. Nododd Cyngor Caerdydd hefyd y byddai'r safle Parcio a Theithio presennol yn aros ar agor am o leiaf 12 mis, a disgwylir i safle newydd fod ar waith cyn unrhyw gau.
7. Mae'r sefydliad yn cydnabod yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â hygyrchedd i rai gwasanaethau. Mae'r problemau sylfaenol wedi'u nodi fel rhai sy'n gysylltiedig â phwysau staffio. Mae'r Tîm Profiad Cleifion wedi cymryd camau

gweithredu ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi anghenion cyfathrebu cleifion. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob gohebiaeth gynnwys opsiynau cyswllt lluosog, bwrw ymlaen â chyflwyno Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, a diweddaru canllawiau staff ar wasanaethau dehongli a chyfieithu trwy adnoddau gwell, deunyddiau hyfforddi a chymorth ymarferol.

8. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno teclyn adrodd i staff a lansiwyd ym mis Chwefror 2026 i helpu cydweithwyr i amlygu'n gyflym unrhyw arwyddion Cymraeg anghywir, ar goll, neu o ansawdd gwael ar draws eu safleoedd.

**Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**

9. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth y pryderon a godwyd, yn enwedig mewn ardal a ystyrir yn ardal ynysig. Cyflwynwyd fframwaith rheoli perfformiad ambiwlansys newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2025, sy'n cynnwys categori "porffor" newydd ar gyfer y galwadau sy'n peryglu bywyd fwyaf uniongyrchol, gyda'r categori coch bellach yn cael ei ddisgrifio fel "brys".

I weld yr ymateb llawn a dderbyniwyd gan y sefydliadau hyn, cysylltwch â swyddfa leol Llais.

## Camau nesaf

### Rhannu canfyddiadau

Byddwn yn rhannu'r adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid allweddol a phobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i dynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud.

### Ymgysylltu ac Eiriolaeth

Byddwn yn parhau i gasglu barn a phrofiadau ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal, drwy ein swyddogaeth ymgysylltu ac eiriolaeth.

## Cadw mewn cysylltiad

Rydym yn annog pobl i barhau i gymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol ac yn croesawu adborth drwy gydol y flwyddyn trwy ein gwefan a'n tîm rhanbarthol.

I aros mewn cysylltiad â ni, gallwch:

- Ymweld â www.llaiscymru.org am y diweddariadau a'r adroddiadau diweddaraf
- Dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol @llaiscardiffandvale
- Cysylltu â'ch tîm Llais lleol ar cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org
- Cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr – https://www.llaiscymru.org/mewnwelediadau